

## **Cyngor Cymuned Llanelian (290)**

Cofnodion cyfarfod Medi 12, 2017 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

**Presennol:** Dafydd Griffiths, Hefina Williams, John Griffiths, Elfyn Hughes, Glenys Jones, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Ian Evans, David Gerrard, Helen Hughes, Cyng Richard Jones

**Ymddiheuriadau:** Thomas Jones, Cyng Richard Griffiths, Cyng Aled Jones

**Yn bresennol:** Carli Evans Thau (Clerc)

### **1 Croeso**

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.

### **2 Datgan Diddordeb**

Ian Evans – Cais Cynllunio y Bedol ac Arolwg Angen Tai  
Hefina Williams – Cais Cymdeithas y Leinws am gefnogaeth ariannol  
Richard Jones – Ceisiadau Cynllunio

### **3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig Carol Whitaker eilio Hefina Williams.

### **4 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

#### **4.1 Ethol Is-gadeirydd**

Cytuno byddai Hefina Williams yn cynorthwyo ble bod angen am flwyddyn arall. Diolchwyd i Hefina Williams am gytuno parhau yn y swydd.

#### **4.2 Toiledau Cyhoeddus**

Cafwyd ebost gan Dewi Williams ynglŷn a chostau gosod peiriant yn y maes parcio. Wedi trafod ymhellach, cytuno nad oedd posib i'r Cyngor Cymuned ddod i benderfyniad nes bydd polisi'r Cyngor Sir wedi ei gyhoeddi. Cytuno ysgrifennu at y Cyngor Sir i gadarnhau hyn.

#### **4.3 Arolwg Tai**

Deallwyd bod diwrnod agored wedi ei drefnu yn y Neuadd Bentref 21/9/2017 a bod llythyrau wedi eu hanfon i drigolion yr ardal yn eu hysbysu o'r arolwg. Nododd y clerc bod copi o'r poster oedd wedi ei anfon drwy ebost wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd. Roedd yr aelodau yn bryderus iawn nad oedd un ohonynt wedi derbyn llythyr gyda manylion yr arolwg nac ychwaith y diwrnod agored. Cytuno cysylltu a Dylan Owen a gofyn iddo ail-drefnu'r digwyddiad unwaith bod y llythyrau wedi eu hanfon allan – teimlwyd bod 21/9 yn rhy fyr-rybydd ac na fyddai posib cael cynrychiolaeth teg o'r pentref i fynychu o fewn yr amser hynnu.

#### **4.4 Lon yr Ysgol**

Mae'r Ysgol wedi ail agor ar ol gwyliau'r haf ac mae'r lon yn beryg bywyd yn enwedig pob bore a phnawn. Cytuno cysylltu ag Aled Jones am ddiweddariad ar y mater gan fod y broblem i weld yn gwaethygu.

#### **4.5 Diogelu Enwau Hanesyddol**

Mae'r clerc wedi cysylltu a Grwp Hanes Amlwch (rhan o Age Well Amlwch). Mae ganddynt brosiect sydd i'w gynnal dros misoedd y gaeaf i gasglu gwybodaeth am enwau tai, ardaloedd a chaeau yn y gymuned leol (ardal Amlwch a Llanelian). Bydd y wybodaeth hynnu, yn rhan o brosiect cenedlaethol, yn cael ei gofnodi gan yr archifdy a'r comisiwn. Bydd y grwp yn cysylltu a'r clerc am fwy o wybodaeth yn fuan ac i drefnu cyfarfod gyda chynrychiolwyr o'r Cyngor a'r gymuned i rannu gwybodaeth.

#### **4.6 Swyddfa Bost**

Daw ymgynghoriad gan y Swyddfa Bost ar gyfer symud y gwasanaeth i'r Siop. Cytuno'n unfrydol i gefnogi'r cynnig, a holi hefyd os oedd modd symud y blwch post at gyfeiriad y siop er diogelwch. Gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau a fyddai posib cael y post symudol tra bod yr hen bost wedi cau a'r gwaith paratoi yn parhau yn y siop.

#### **4.7 Parcio ar y glaswellt ar y gyffordd a'r A5025**

Nid oes ymateb cadarnhaol gan CSYM fyth. Mae ceir wedi parcio i'w gerthu yn Cerrig Man hefyd erbyn hyn! Cytuno anfon at CSYM a gofyn am wedl eu polisi yn ymwneud a p[ro]hobl yn defnyddio tir y Cyngor i werthu nwyddau heb ganiatad. Mae hyn yn broblem ar draws yr ynys.

#### **4.8 Giat y Fynwent**

Daw cadarnhad y byddai posib cael giat newydd ond bod proses i'w ddilyn. Byddai angen astudiaeth ac adroddiadau ar y giat gyfredol, yn ogystal a chais am ganiatad cynllunio ar gyfer adeiladau cofrestredig. Byddai'r gwaith yma oddeutu £1000-1200, gyda chost giat newydd yn £6000 neu fwy.

Roedd yr aelodau yn gefnogol o gael giat newydd gan mai dyma oedd dymuniad Mrs Mair Morris, a'i bod wedi bod yn hael iawn gyda'r gymuned. Cytuno byddai giat pwrpasol yn ei le am flynyddoedd lawer ac yn deyrnged i Mrs Morris. Cytuno byddai ceisio am grantiau tuag at y prosiect unwaith bod sicrwydd am ganiatad cynllunio a chostau giat o'r fath.

#### **4.9 Beddi Rhyfel**

Nid yw prosiect Change Step yn bodoli bellach. Cytuno gofyn i Richard Edwards ymgymryd a'r gwaith a chynnal y safle.

#### **5 Pwyllgor Safonau**

Daw cais gan y Pwyllgor Safonau i pob Cyngor Tref a Chymuned ethol dau gynrychiolydd o'r rheini sydd wedi eu henwebu eisioes. Teimlai'r aelodau nad oedd digon o wybodaeth wedi ei gyflwyno am yr ymgeiswyr i allu wneud penderfyniad.

#### **6 Llyfrgell**

Mae Cyngor Llanelian wedi trafod dyfodol llyfrgelloedd yr Ynys ers rhai misoedd pellach. Wrth ddarllen y ddogfen ymgynghori diwethaf, roedd yr aelodau yn falch gweld bod llyfrgell Amlwch yn parhau i gynnig 20 awr o wasanaeth. Teimlai'r aelodau bod wir angen diogelu'r llyfrgelloedd gwledig yn ogystal a'r prif lyfrgelloedd yn Llangefni a Chaergybi. Yn wir teimlwyd y dylid cwtogi oriau rheini oes oedd angen er mwyn diogelu gwasanaeth yn y llyfrgelloedd llai. Teimlai'r aelodau bod wir angen edrych ar y defnydd o'r llyfrgell symudol ac y byddai posib arbed arian yma. Byddai hysbysebu yn gyhoeddus pa bryd fydd y bws yn ymweld a gwahanol safleoedd efallai yn denu mwy o ddefnydd ohono

#### **7 Caeau Chwarae**

Nodwyd bod adroddiadau diogelwch chwarterol M Owen wedi ei derbyn. Nodwyd bod angen arwyddion yn datgan pwy oedd yn gyfrifol am y meysydd a gofynnwyd i'r clerc drefnu bod rhai yn cael eu gosod cyn gynted a phosib. Cytuno archebu mainc blastic arall i Maes Llwyfo a byddai Partneriaeth Llwyfo yn cyfrannu tuag ato.

Dosbarthwyd gopïau o'r adroddiadau i aelodau'r is-bwyllgor er gwybodaeth.

#### **8 Llithrfa**

Bydd y postyn yn cael ei dynnu allan ddiwedd yr wythnos. Mae disgwyl i oriadau cael eu dychwelyd erbyn ddiwedd mis Hydref cyn talu unrhyw blaen-daliadau yn ol. Mae Jeff Price o'r Cyngor Sir wedi bod yn monitro'r sefyllfa ac yn ymwybodol o unrhyw broblemau sydd wedi codi. Bydd y Bartneriaeth yn cwrdd ar ddiwedd y tymor unwaith bydd posib cadarnhau faint o oriadau sydd wedi eu dychwelyd.

#### **9 Cynllunio**

**9.1** Ceisiadau – roedd dau gais i'w ystyried:

- Maes Teg, Llanelian – dim sylw
- Pant y Clociau, Mynydd Eilian – dim sylw

**9.2** Penderfyniadau – cafwyd wybod am benderfyniadau y Cyngor Sir fel a ganlyn:

- Penmaen Farm – dim angen caniatad
- Cae Hen, Mynydd Eilian – Caniatad
- Glaslyn, Penysarn – Caniatad
- Tyn Chwarel, Mynydd Eilian – Caniatad
- Twrcelyn, Cerrig Man – Gwrthod

- Tir ger Corn Cam – Caniatad
- Bryn Difyr, Nebo – Caniatad
- Cae Gron, Llanelian – Gwrthod

### 9.3 Arall

Cafwyd gopi er gwybodaeth o lythyr oedd wedi ei hanfon at CSYM gan Gwyn Roberts yn nodi ei resymau am wrthwynebu cais cynllunio Kingston a Dublin. Trafodwyd cynnwys y llythyr gan nodi bod yr un pryderon wedi eu nodi gan y Cyngor eisioes. Cytuno bod angen arolwg anghenion tai cyn gynted a phosib; roedd yr aelodau yn siomedig bod ffurf ceisiadau a datblygiadau yn newid dros gyfnod o amser. Cytuno byddai'r Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu pob datblygiad newydd nes bydd yr arolwg wedi ei gwblhau a'i gyflwyno.

Nid oedd sicrwydd sut oedd y nifer o dai fforddiadwy yn cael ei ddatgan ar gyfer datblygiadau newydd, nac ychwaith y diffiniad o dy fforddiadwy. Cytuno cysylltu a CSYM am fwyvo wybodaeth.

Gofynnwyd pwy oedd yn gyfrifol am y system garffosiaeth. Cadarnhawyd bod CSYM yn ymgynghori a Dwr Cymru ar pob cais cynllunio. Cytuno ysgrifennu atynt i gael eu safbwynt ar ddatblygiadau o'r fath a gallu system Penysarn i ddelio a nifer mwy o dai.

Cadarnhaodd Richard Jones y byddai yn galw pob cais am ddatblygiad newydd yn ardal Penysarn ger bron y Pwyllgor Cynllunio. Byddai angen hefyd ystyried yr effaith mae datblygiadau ardal Rhosybol yn ei gael ar system garffosiaeth Penysarn.

## **10 Materion Ariannol**

### **10.1 Taliadau**

Cymeradwywyd y taliadau canlynol:

£204.00 HMRC

£272.23 Cyflog Clerc – Gorffennaf

£272.03 Cyflog Clerc – Awst

£87.00 M Owen – Arolygu Caeau Chwarae

### **10.2 Archwiliad**

Cafwyd wybod bod BDO wedi nodi nad oedd y ffurflen flynyddol wedi ei arwyddo gan y Clerc cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor ac nad oedd hyn yn cydymffurfio a'r gofynnion. Mae argymhelliant bod y ffurflen yn cael ei arwyddo cyn ei gyflwyno yn y dyfodol.

### **10.3 Ceisiadau am Arian**

Daw cais gan Gymdeithas y Leinws am gefnogaeth ariannol. Cytuno byddai ystyried y cais ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cytuno ysgrifennu at y grwp i gadarnhau hyn, a nodi byddai posib iddynt gynnal eu cyfarfodydd yn y Neuadd Bentref am gost rhesymol.

### **10.4 Cofrestr Asedau**

Daw arweiniad gan BDO yr archwiliwr allannol ar sut disgwylir i gynghorau gyflwyno cofrestr asedau. Cytuno diweddarau'r gofrestr presennol i gynnwys y wybodaeth angenrheidiol a'i drafod yn y cyfarfod nesaf.

## **11 Cronfa Ty Moel Isaf**

Dim diweddariad. Nodwyd bod giat y fynwent eisioes wedi ei drafod yn brosiect posib.

## **12 Iechyd a Diogelwch**

Yn unol a'r polisi Iechyd a Diogelwch, bydd yr eitem yma yn ymddangos ar pob agenda o hyn allan ac yn gyfle i godi ymwybyddiaeth am unrhyw pryderon.

## **13 Gohebiaeth**

**13.1** Mae'r Cyngor Sir yn bwriadu cau Lon Gwaith Brics ar gyfer gwaith cynnal a chadw o 25/9/2017 hyd 6/10/2017.

**13.2** Mae Horizon yn cynnal sesiynnau gwybodaeth yn y gymuned unwaith eto dros y misoedd nesaf. Mae copi o'r poster yn yr hysbysfwrdd.

**13.3** Bydd y Cyngor Sir yn darparu hyfforddiant Cod Ymddygiad i aelodau Cyngorau Tref a Chymuned yn Llangefni – dyddiad i'w gadarnhau.

**13.4** Cafwyd wybod gan Un Llais Cymru bod y ddeddf diogelu data yn cael ei ddiwygio. Bydd y newidiadau yn dod i rym ym mis Mai 2018.

#### **14 Unrhyw Fater Arall**

**14.1** Diffyg Parcio – daw cwynion gan defnyddwyr y Neuadd am ddiffyg parcio. Mae nifer o blant a phobl hyn yn defnyddio'r Neuadd ac mae diffyg parcio yn creu problem. Mae'n debyg bod nifer o drigolion lleol yn parcio yn y gilfan ger y Neuadd drwy'r amser er bod cyfyngiadau arno. Gyda'r gilfan yn llawn mae pobl yn parcio ar hyd y ffordd ac mae hyn yn codi pryderon diogelwch. Roedd yr aelodau yn bryderus am ddyfodol gwasanaeth bws y pentref os fydd y problemau parcio yn parhau. Y Clerc i godi ymwybyddiaeth yr Adran Briffyrdd unwaith yn rhagor.

**14.2** Hysbysfwrdd – nodwyd bod yr hysbysfwrdd angen ei baentio i'w ddiogelu. Mae Thomas Jones wedi cynnig gwneud y gwaith os bydd y clerch yn prynu deunyddiau.

**14.3** De-ffibriwleiddiwr – drwy gynnal gweithgareddau codi arian, mae Richard Jones a'i dim wedi gallu prynu a darparu'r peiriannau i gymunedau'r ardal ac fe gyflwynwyd blwch i Bentref Penysarn. Cytuno dylid ei leoli ar y siop os oedd hyn yn bosib – y clerch i wneud ymholiadau. Nodwyd mai gwasanaeth ambilwlans Cymru fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r offer. Cytuno ysgrifennu gair o ddiolch i Richard Jones a'i dim.

**14.4** Lon Tyddyn Waen – mae pryderon yn parhau am gerbydau yn gor-yrru i lawr y lon heibio i'r cae chwarae. Nodwyd bod nifer o bobl hyn yn cerdded y lon yma hefyd. Cytuno cysylltu a'r Adran Briffyrdd i ofyn am fwy o arwyddion araf / cae chwarae, ac am dwtio o amgylch yr arwyddion presennol.

**14.5** Safle Bws – cafwyd gais i ystyried ail-osod safle bws ger y Capel yn Nulas. Nodwyd bod y safle bws yno o hyd, ond dim ond ar un ochr i'r ffordd mae cysgodfan.

#### **15 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd y cyfarfod nesaf Hydref 10, 2017 am 7 o'r gloch.

Bu'r cyfarfod orffen am 21.10.

**Arwyddwyd  
Dafydd Griffiths  
Cadeirydd**

CET09/2017